*Mae fersiwn Saesneg o'r ddogfen hon ar gael.*

# Cydraddoldeb ac Amrywiaeth – Polisi Datgelu Dysgwyr

## Cwmpas a Diben y Polisi

Mae Coleg Caerdydd a'r Fro yn ymdrin â chydraddoldeb ac amrywiaeth o ddifrif. Mae gennym gorff myfyrwyr amrywiol ac rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod gennym goleg lle mae pawb yn cael ei drin yn gyfartal, gyda pharch. Mae'n bwysig ein bod ni'n gallu gwirio gofynion penodol dysgwyr sydd ag anabledd a/neu anghenion dysgu ychwanegol (yn ôl y diffiniad sydd wedi'i gynnwys yn Neddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg Cymru 2018) mewn modd amserol, a'n bod ni'n gallu gweithredu ar unrhyw ddatgeliad er mwyn sicrhau ein bod ni'n bodloni'r anghenion hyn ac yn cefnogi bob dysgwr tra eu bod nhw yn y coleg.

Diben y polisi hwn yw sicrhau bod:

- Gennym ni amgylchedd sy'n annog datgelu anableddau a/neu anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn effeithiol;
- Staff yn deall eu rolau o ran datgelu; a bod
- Dysgwyr yn cael eu cefnogi'n effeithiol i'w galluogi i gyflawni eu nodau personol tra eu bod nhw yn y coleg.

Ceisiwn sicrhau bod yr ethos hwn wedi'i wreiddio o fewn y Coleg a bod y staff, y dysgwyr a'r ymwelwyr i gyd yn ymwybodol o'r pwysigrwydd a roddwn i ymddygiad sy'n cefnogi'r ethos hwn. Er ein bod yn cydnabod nad yw pob dysgwr sy'n datgelu anabledd angen unrhyw gefnogaeth ychwanegol, mae CCAF yn cofnodi'r wybodaeth yma at bwrpas adrodd i Lywodraeth Cymru.

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i bob dysgwr ar bob rhaglen ddysgu ni waeth beth fo'i ddull neu leoliad astudio.

### *Beth yw datgelu?*

Mae deddfwriaeth cydraddoldeb yn gofyn i'r Coleg atal gwahaniaethu anghyfreithlon a gwneud addasiadau rhesymol ar gyfer dysgwyr sydd ag anawsterau dysgu a/neu anableddau. Mae'r addasiadau hyn yn hanfodol os yw'r dysgwr dan sylw am gael y cyfle gorau i lwyddo yn y coleg. Mae datgelu anabledd ac/neu ADY yn golygu fod person yn datgelu gwybodaeth am anabledd neu angen dysgu ychwanegol (yn ôl y diffiniad yn Neddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg Cymru 2018) i rywun arall. O dan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg, os yw datgeliad yn adnabod yr angen am gefnogaeth ychwanegol, yna tybir bod y Coleg wedi cael gwybod yn ffurfiol y 'gall' y dysgwr fod ag ADY a dylid cyfeirio at hyn ym Mhanel Cynhwysiant y coleg. Os yw'r dysgwr yn datgelu bod ganddynt anabledd, ond nad ydynt angen unrhyw ddarpariaeth ddysgu ychwanegol, does dim angen ei gyfeirio at y Panel

Cynhwysiant. Yn yr achos hwn, bydd timau'r cwricwlwm yn gwneud addasiadau rhesymol yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010.

## Datganiadau Polisi

Mae nifer o egwyddorion allweddol wrth wraidd y Polisi hwn:

- Rhaid i'r dysgwyr sy'n cael mynediad at Goleg Caerdydd a'r Fro fod yn rhydd rhag gwahaniaethu.
- Bydd dysgwyr yn cael eu cefnogi i'w galluogi i gyflawni eu potensial a'u Hannibyniaeth tra maent yn y coleg, mewn amgylchedd sy'n lleihau bod dan anfantais, yn cymryd camau i fodloni eu hanghenion ac yn annog cyfranogiad. Mae llesiant ein dysgwyr yn ganolog er mwyn iddynt deimlo'n dda am eu hunain a pharchu eraill.
- Yn y Coleg bydd ein dysgwyr yn datblygu'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i'w galluogi i ddatblygu'n llwyddiannus drwy gydol eu bywydau.
- Ymrwymiad i ddulliau adferol, yn deall trawma ac sy'n berson-ganolog i sicrhau ein bod ni'n meithrin cysylltiadau da drwy fynd i'r afael â rhagfarn a hyrwyddo dealltwriaeth.
- Ymrwymiad i fodel cymdeithasol anabledd lle'r ydym yn edrych ar gael gwared ar y rhwystrau y gallai rhywun eu hwynebu oherwydd ei anableddau ac/neu anawsterau dysgu er mwyn hyrwyddo cynhwysiant.

Mae'r Coleg wedi ymrwymo i:

- Gefnogi dysgwyr sydd ag anableddau ac/neu anawsterau dysgu, ac ADY mewn ffyrdd sy'n bodloni eu hanghenion unigol yn addas ac effeithiol (lle mae'n rhesymol gwneud hynny).
- Gosod gweithdrefnau i sicrhau bod cyfleoedd i ddysgwyr ddatgelu sawl gwaith yn ystod y broses dderbyn, cofrestru, sefydlu a drwy gydol eu hamser yn y coleg.
- Gosod gweithdrefnau i sicrhau pan mae dysgwr angen darpariaeth ddysgu ychwanegol bod y wybodaeth hon yn cael ei throsglwyddo i'r Tîm Dysgu Cynhwysol a Phanel Cynhwysiant mewn ffordd gyson ac amserol, sy'n cynnal cyfrinachedd. Mae hefyd yn bwysig bod cyfathrebu clir rhwng staff cefnogi a staff y cwricwlwm.

- Sicrhau bod dull yn seiliedig ar dystiolaeth yn cael ei fabwysiadu er mwyn cwrdd ag anghenion dysgwyr drwy Banel Cynhwysiant y Coleg, a fydd yn cofnodi manylion y gefnogaeth sy'n cael ei darparu a dysgwyr sy'n gwrthod cefnogaeth wedi datgeliad mewn ffordd briodol.

- Hysbysu cymuned y Coleg o'r gweithdrefnau hyn, er mwyn sicrhau bod pawb yn ymwybodol o bwysigrwydd datgelu a'r hyn y dylent ei wneud os yw dysgwr yn datgelu.

- Hyrwyddo dealltwriaeth o anableddau ac/neu anawsterau dysgu ac ADY ar draws cymuned y Coleg. Gwneir hyn drwy hyfforddi staff, proses gyflwyno a thiwtorial i ddysgwyr, a defnyddio cyhoeddusrwydd a phosteri ar draws y coleg.

- Cofnodi a monitro datgeliadau o'r angen am ddarpariaeth dysgu ychwanegol i'r Panel Cynhwysiant er mwyn sicrhau bod y weithdrefn gywir yn cael ei dilyn a'n bod yn ymateb yn effeithiol i unrhyw feysydd o bryder neu dueddiadau.

- Adolygu effeithiolrwydd ein polisi a'n hymateb i ddatgeliadau yn rheolaidd, a gweithredu ar unrhyw feysydd sy'n peri pryder.

## Cyfrifoldebau

Bydd y Corff Llywodraethu yn gyfrifol am sicrhau bod:

- Y Polisi yn cael ei adolygu'n rheolaidd (yn unol â thelerau adolygu'r polisi) ac y rhoddir cyngor priodol ar y cynnwys.

Bydd y Pennaeth yn gyfrifol am sicrhau bod:

- Polisi a gweithdrefnau Datgelu y Coleg yn cael eu gweithredu'n llawn a'u dilyn gan staff.
- Adnoddau digonol yn cael eu cynnig i gefnogi dysgwyr sydd ag anableddau ac/neu anawsterau dysgu, ac ADY.

Bydd yr Uwch Grŵp Cynllunio yn gyfrifol am:

- Adolygu'r Polisi hwn a'r gweithdrefnau cysylltiedig.
- Monitro'r broses o gymhwyso'r gweithdrefnau, cefnogi staff i annog datgelu ac ymateb yn effeithiol i unrhyw feysydd sy'n peri pryder.
- Sicrhau bod gweithdrefnau ac arferion perthnasol y coleg e.e. derbyniadau, tiwtorial a.y.y.b. wedi'u hymgorffori yn y Gweithdrefnau Datgelu.
- Sicrhau nad yw darpariaeth y cwricwlwm yn mynd yn groes i ofynion na nod y polisi hwn.

Cardiff and Vale College
Coleg Caerdydd a'r Fro

Mae'r Pennaeth Cynorthwyol ar gyfer Ansawdd yn gyfrifol am:

- Sicrhau y darperir hyfforddiant a datblygiad priodol.
- Sicrhau y cymerir camau priodol i fonitro data sy'n gysylltiedig â'r polisi hwn a bod y data hwn yn cael ei ddefnyddio i fod yn sail i arferion ac i'w gwella.

Mae'r Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol yn gyfrifol am:

- Sicrhau bod anghenion pob dysgwr gyda ADY yn cael eu cwrdd ar lefel strategol o fewn y lleoliad addysg.
- Sicrhau bod y Coleg yn cynllunio, rheoli a chyflawni ei ddyletswyddau a chyfrifoldebau wrth adnabod a chwrdd ag anghenion pobl ifanc gyda ADY.

Mae'r holl Staff yn gyfrifol am:

- Drin yr holl ddysgwyr gydag urddas a pharch, i sicrhau nad yw eu hymddygiad eu hunain yn achosi camddealltwriaeth na drwgdeimlad.
- Bod yn ymwybodol o'r Polisi Datgelu a'r gweithdrefnau ar gyfer annog ac ymateb i ddatgeliadau mewn modd cefnogol.
- Gweithio gyda phobl ifanc sydd ag ADY a bod â chyfrifoldeb dros sicrhau bod anghenion eu dysgwyr yn cael eu hadnabod ac yn cael eu darparu ar eu cyfer.
- Gweithio o fewn gofynion Diogelu Data a'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data.
- Dilyn y polisi mewn perthynas â dymuniad dysgwr i gadw datgeliad yn breifat (pan fo'n ddiogel gwneud hynny).
- Cyfathrebu'n effeithiol gyda staff i sicrhau bod anghenion dysgwyr yn cael eu bodloni.
- Bod yn addysgwyr pobl ifanc gydag ADY yn unol â'r Ddeddf a'r Cod.
- Mynychu digwyddiadau datblygiad proffesiynol parhaus ynghylch agweddau sy'n berthnasol i'r polisi hwn a gweithdrefnau cysylltiedig.

Mae'r dysgwyr yn gyfrifol am:

- Fynychu sesiynau sefydlu a thiwtorialau i sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r polisi a'r materion a godir ynddo.
- Ymddwyn mewn modd sy'n cefnogi'r Polisi ar draws y Coleg.
- Cyfrannu at arolygon dysgwyr a grwpiau ffocws i ddarparu adborth ar y polisi hwn a gweithdrefnau cysylltiedig, a'u heffaith.

**Cymeradwyo, Addasu ac Adolygu**

- Caiff y polisi hwn ei adolygu bob 2 flynedd.
- Mae fersiwn Saesneg o'r ddogfen hon ar gael.